

Aelodau Panel/Rhestr Ganolog

Disgrifiad Swydd

1. Darllen y papurau a ddosbarthwyd yn ofalus cyn y cyfarfod, a mynychu'r cyfarfod yn barod i godi materion a chyfrannu at drafodaeth y panel.
2. Cymryd cyfrifoldeb am gymryd rhan mewn gwneud argymhelliad, ar bob achos, gan ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad personol a phroffesiynol.
3. Mynychu cyfarfodydd y panel fel y nodir yn eich cytundeb gyda'r asiantaeth.
4. Bod yn barod i fynychu paneli ychwanegol os yn bosibl, os gofynnir am hynny.
5. Cymryd rhan, gydag aelodau eraill, yn y gwaith o gynghori ar faterion polisi a gweithdrefnol yn ôl y gofyn.
6. Mynd i'r afael â materion amrywiaeth a hyrwyddo arfer gwrthwahaniaethol.
7. Diogelu cyfrinachedd holl bapurau'r panel a thrafodaethau'r panel.
8. Cymryd rhan mewn sesiynau sefydlu a hyfforddiant a fydd o leiaf un diwrnod y flwyddyn.
9. Cymryd rhan adeiladol yn yr adolygiad blynyddol o aelodaeth eich panel rhestr ganolog.
10. Cadw at god ymddygiad aelodau panel yr asiantaeth, os yw'n cael ei ddarparu (gweler Atodiad 6).

Manyleb Person

Profiad a Chymwysterau

- Profiad, naill ai'n broffesiynol neu'n bersonol neu'r ddau, o leoli plant gyda theuluoedd maeth neu o blant sy'n derbyn gofal i ffwrdd o'u teulu biolegol.
- Bydd angen cymhwyster gwaith cymdeithasol ar gyfer rhai aelodau o'r panel.

Gwybodaeth

- Gwerthfawrogi effaith gwahanu a cholled ar blant.
- Ymwybyddiaeth o gyfoeth gwahanol fathau o deuluoedd a'u potensial i fodloni anghenion plant.
- Dealltwriaeth o ddiben a swyddogaeth y panel a'r asiantaeth y mae'r panel yn ei gwasanaethu, neu barodrwydd i ddysgu.

Gallu

- Sgiliau gwrandao a chyfathrebu da
- Gallu darllen, prosesu a dadansoddi llawer o wybodaeth gymhleth sydd weithiau'n peri gofid.
- Gallu gwneud asesiad a llunio barn, yn seiliedig ar y wybodaeth ysgrifenedig a llafar a gyflwynwyd i'r panel, a'r hyder i siarad yn y panel hwn.

- Gallu defnyddio gwybodaeth a phrofiad personol a/neu broffesiynol i gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau mewn modd cytbwys a hyddysg.
- Gallu gweithio fel aelod o dîm aml-ddisgyblaethol.
- Gallu mynychu cyfarfodydd y panel, yn ôl y gofyn, gan gyrraedd ar amser, a mynychu o leiaf un diwrnod hyfforddi bob blwyddyn.

Agweddau

- Ymrwymiad i gadw plant yn eu teulu neu eu cymuned eu hunain lle bo hynny'n bosibl a chynnal cyswllt rhwng plant sy'n byw gyda theuluoedd maeth a'u teuluoedd biolegol pan fo'n ymddangos bod hynny er lles gorau'r plentyn.
- Ymrwymiad i faethu fel ffordd o ddiwallu anghenion plentyn, pan fo'n ymddangos bod hynny er lles gorau'r plentyn.
- Ymrwymiad i ddiogelu a hyrwyddo lles plant mewn gofal maeth.
- Gwerthfawrogi amrywiaeth mewn perthynas â materion yn ymwneud ag ethnigrwydd, crefydd, rhyw, anabledd a rhywioldeb.
- Deall yr angen i sicrhau cyfrinachedd ac ymrwymo iddo.
- Parodrwydd i fagu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion drwy ddarllen, trafod a hyfforddi.
- Parodrwydd i gyfrannu'n adeiladol at yr adolygiad blynyddol o'ch aelodaeth panel rhestr ganolog ac, fel sy'n ofynnol, adolygiad blynyddol aelodau eraill a'r Cadeirydd.